

Cwrdd â'r Iesu Byw yn Llanw 2024

Bu llawer o deulu eglwys Ffynnon, Llandysul, draw yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, wedi Sul y Pasg ar gyfer Gŵyl Gristnogol Llanw. Roedd yn gyfle i gydfwyta, cyd-fyw, cydweddio, cydfoli, cyd-ddysgu a chyd-ddathlu'r atgyfodiad wrth i Gristnogion ac unigolion sydd â diddordeb mewn Cristnogaeth o bob oed a chefnidir ddod ynghyd rhwng 1 a 5 Ebrill.

Uchafbwynt rhai o deulu Ffynnon oedd 'gweld teuluoedd yn cael cwmni ei gilydd dros bryd o fwyd a dala lan dros fawl a gweddi', a 'cael treulio amser gyda ffrindiau da'. Roedd eraill wedi mwynhau 'hongian mas yn y nos gyda chymdeithas felys yn profi sgysiaau annisgwyl rhwng pobl o bob oed ac o eglwysi ar draws Cymru' a 'gweld newid mewn unigolion wrth i Dduw weithio ynddyn nhw'.

Roedd ymdeimlad saff, cariadus, llawn rhyddid yn y gwersyll wrth i blant, pobl ifanc ac oedolion fwynhau gweithgareddau niferus ochr yn ochr â phaneidiau, sgysiaau anffurfiol, cyfleoedd cyson i weddio ac i fynd



am dro. Roedd cyfle i blant a phobl ifanc fod yn annibynnol wrth fynd o un gweithgaredd i'r llall, a chyfle i rieni gael saib wrth i bob pryd gael ei baratoi ar ein cyfer yn y stafell fwyta bwrpasol. Roedd y bwyd blasus yn uchafbwynt i nifer o griw ifanc Ffynnon.

Roedd *crèche* llawn teganau, stori a chreffft i blant 3-5 oed, a gweithgareddau hwyliog Cristnogol gan arweinwyr profiadol i blant oed cynradd yn ogystal â'r rhai yn eu harddegau. Uchafbwynt

bachgen yn ei ardegau o Ffynnon oedd 'gallu chwarae'r gitar fas mewn addoliad gyda degau o bobol ifanc eraill'. Uchafbwyntiau llawer o deulu Ffynnon oedd yr addoliad bob bore a nos yn y brif neuadd. Roedd yr addoli'n cael ei arwain gan Adlais yn y bore a chan eglwysi Ffynnon, Caersalem (Caernarfon) ac Emaus (y Bala) gyda'r nos. Cafodd nifer o deulu Ffynnon fudd o'r gwahanol seminarau a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos hefyd.

Uchafbwynt personol i fi oedd cael gwrando ar brif siaradwr Llanw eleni, sef Arfon Jones. Fe sydd wedi cyfieithu'r Beibl i Gymraeg naturiol, bob dydd (beibl.net). Os nad oeddech chi yn Llanw, mi faswn yn eich annog i fynd i sianel [YouTube](#) neu dudalen Facebook yr ŵyl i wrando 'nôl ar y ffrydio byw.

Dros dri bore bu Arfon yn myfyrto ar y cysyniad o gael ein hachub a bod â rhan yn nheyrnas Dduw. Bu'n edrych ar stori'r dyn ifanc cyfoethog (Marc, pennod 10) a'r ffaith ei fod yn methu gollwng gafaal ar ei gyfoeth er mwyn dilyn Iesu. Dywedodd Arfon fod hyn wedi ei herio ar hyd y blynyddoedd, ac fe'n heriodd ni i ystyried beth ydyn ni'n methu gollwng gafaal arno wrth fyw fel Cristnogion. Yn ôl Arfon, ystyr y gair achub, achubiaeth go

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)



Criw da o blant oed cynradd yn mwynhau'r clwb plant Beiblaidd dyddiol

Cwrdd â'r Iesu Byw yn Llanw 2024 (parhad o dudalen 1)

iawn, yw newid ein bywydau ni. Eglurodd fod Iesu wedi mynd i'r groes i ddangos i ni sut y mae'n ein galw ni i fynd i'r groes. Mae angen i ni ddilyn ôl ei droed.

Dyma ddywedodd dau o teulu Ffynnon:

'Dw i'n meddwl bod y *lineup* o ran pwy o'dd yn neud y *talks* yn ffantastig, yn enwedig Arfon yn siarad am realiti Cymru heddiw ac yn llwyddo i fod yn heriol ac annog ar yr un pryd.'

'Roeddwn i'n rili gwerthfawrogi pregethau onest a *humble*, heb fod ofn dweud y gwir.'

Roedd undod rhwng negeseuon heriol y siaradwyr i gyd wrth ein hannog ni fel Cristnigion i ystyried:

- ydyn ni'n byw yn wahanol i'r byd;
- ydyn ni'n byw fel dwylo a thraed Iesu yn y byd;
- ydyn ni'n byw fel petai Iesu yn deilwng o'n bywyd cyfan?

Cafwyd cyfle gyda chriw 100.cymru i glywed am heriau a bendith plannu



Arfon a Rachel Jones – Arfon oedd y prif siaradwr eleni

eglwysi ar draws Cymru a'r byd. Bu llawer o hwyl wrth i Martyn Geraint ein hatgoffa bod angen aros yng ngwinwydden Crist er mwyn gweld ffrwyth da yn ein bywyd.

Mi wnaeth llawer o deulu Ffynnon fwynhau sgwrs Heulwen Davies, un o arweinwyr 21st-century Church yn Llanelli ar y nos Fawrth a sgwrs Steffan

Morris ar y noson olaf dan y pennawd 'Teilwng': 'Nes i fwynhau Llanw trwyddo, ond nos lau oedd yr uchafbwynt gyda Steffan. Cafodd e'r tŷ yn iawn a'n hannog ni i roi Iesu yn y lle cywir. Roedd yn *amazing*.'

Lleucu Meinir
Llandysul

Dathlu'r Pasg yng Nghapel Bwlch-gwynt, Tregaron

Cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu'r Pasg yng Nghapel Bwlch-gwynt nos Wener, 22 Mawrth. Trefnwyd y noson gan Gerald Morgan, oedd hefyd wedi cyfansoddi nifer o'r emynau a ganwyd gan yr artistiaid.

Cafwyd canu cynulleidfaol dan arweiniad Catherine Hughes, gydag Alice Jones yn cyfeilio.

Darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur gan aelodau o gapeli Gofalaeth Caron, sef Eirwen James, Bethan Evans, Ysgoldy Llanio; Gwyneth Lloyd a Byron Davies, Bethesda, Llanddewibrefi; John Meredith, Edith Beynon, Penial, Blaenpennal, a Margaret Lewis, Delyth Rees, Elizabeth Jones ac Ifan Gruffydd o Fwlch-gwynt.

Cyflwynwyd y datganiadau cerddorol gan Ffrindiau, sef Carys Ann Davies, Lyndsay



Cameron-Jenkins, Cyril Evans a Huw Davies, gyda Neli Jones yn cyfeilio

Llywydd y noson oedd yr Hybarch Eileen Davies, a roddodd hanes sefydlu elusen Tir Dewi sy'n rhoi cefnogaeth i ffermwyr sy'n wynebu amserau anodd. Casglwyd £393 yn ystod y noson at yr achos teilwng

yma gan Cerith Evans, William Jones, Alun Davies a Gareth Jones, Awelfan. Diolch hefyd i Siân Evans am drefnu paned ar y diwedd ac i Eryl Rees am ei gymorth wrth y drws.

Traddododd y Parchedig Carwyn Arthur y fendith i ddiwedd y noson.



Oedfa Bregeth y Pasg, Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion

Nos Fawrth yr Wythnos Fawr cafwyd oedfa fendithiol drwy gyfrwng Zoom. Llywydd y Gymanfa, Eurfyl Lewis, oedd yn llywyddu a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Rhidian Evans ac Eurfyl Lewis. Eleni gwahoddwyd y Parch. Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, i bregethu a chafwyd neges hyfryd ac amserol ganddi ar y testun 'Myfi yw'r Bugail Da'.

Diolch iddi am ei neges ac i Delyth Morgans Phillips am gynnwys recordiad o ddau emyn adnabyddus, sef 'Ai am fy meiau i?' a 'Pan oedd Iesu dan yr hoelion'. Cyhoeddwyd y fendith gan y Parch. Mary Davies, Llandeilo.

Braf yw parhau â'r arfer o gwrdd â'n gilydd ar-lein yn achlysurol. Ond edrychwn ymlaen at groesawu pawb i Gyfarfodydd Blynyddol y Gymanfa yng Nghapel Calfaria, Login, ddydd Mawrth, 14 Mai.

Rhidian Evans



Eglwys Bresbyteriaid Cymru

Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu
Canolfan Gristnogol Cefn Lea

20–23 Mai 2024

Am fwy o fanylion cysyllter â:

nerysrowlands@hotmail.co.uk

Dewch i fwynhau pedwar diwrnod mewn lleoliad braf yn llawn bendith, a chael cyfle i ymlacio a gwneud ffrindiau

Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl

Enwau i'r ysgrifennydd cyn 24 Ebrill, os gwelwch yn dda

Cydymdeimlad

Tristwch yw nodi y bu farw dau o weinidogion Undeb Bedyddwyr Cymru yn ddiweddar, sef y Barchg Llinos Edwards, Llan-y-cefn, sir Benfro, a'r Parchg Victor Evans, Abertawe. Bu farw'r ddau ddydd Mercher, 27 Mawrth 2024.

Diolchwn am eu gwasanaeth ffyddlon i'r Arglwydd Iesu ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'u teuluoedd a'u cyfeillion i gyd yn eu galar a'u hiraeth.

*Judith Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol*

Ein Pregethwr gwadd heddiw yw...

Ydi'n anodd dod o hyd i bregethwyr i gynnal oedfaon yn eich capel?

Oherwydd prinder pregethwyr, nid yw llawer o gapeli yn gallu cynnal oedfaon ar y Suliau! Gobeithiwn bydd y gyfres hon o gymorth i lenwi bwlch y pulpud gwag.

Bydd dwy bregeth newydd yn ymddangos bob mis ar wefan EBC: <https://www.ebcpcw.cymru/cy/ein-pregethwr-gwadd-heddiw/>

Y Parchg Aneurin Owen (Llywydd y Gymanfa Gyffredinol)

'Cenwch i'r Arglwydd gân newydd – cyhoeddwyd o ddydd i ddydd ei iachawdwriaeth Ef' yw anogaeth y Salmudd (Salm 96) ac fe gawn yn y gyfres yma o wasanaethau gyfle i wneud hyn mewn dull cyfoes. Diolch i'r holl gyfranwyr ac i'r Parchg Gwyn Rhydderch am drefnu a rhoi'r weledigaeth ar waith

er ein budd. Bendithied yr Arglwydd y gwranddo a'r cyhoeddi o wirioneddau ei 'iachawdwriaeth Ef'.

Glynis Owen (Llywydd Etholedig)

Mae EBC bob amser yn rhagweithiol yn ei dull o gyflwyno ffyrdd newydd o weinidogaethu, a hefyd yn ei darpariaeth o adnoddau addoliad. Bydd y fenter newydd hon o gymorth mawr i'r holl eglwysi hynny sy'n wynebu anhawster i ddod o hyd i weinidogion i lenwi Suliau gwag. Yn ogystal, bydd yn cyfoethogi ein cymdeithas fel enwad. Diolchaf i bawb sydd wedi bod – ac a fydd – yn gysylltiedig â chynhyrchu'r adnodd hwn. Edrychwn ymlaen at weld y fenter yn datblygu yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Y Parchg Nan Wyn Powell-Davies (Ysgrifennydd Cyffredinol)

Mae hi'n gynyddol anodd i ddod o hyd i rywun i gymryd oedfa ar y Sul. Yn

ogystal, mae llawer o'n haelodau yn methu mynychu lle o addoliad fel y dymument. I'r perwyl hwn, rydym yn hynod o falch o gael cyflwyno i chi, 'Ein pregethwr gwadd heddiw yw?', sef cyfres o bregethau wedi eu recordio yn barod. Diolch i'r Parchg Gwyn Rhydderch, ein Pennaeth Cyfathrebu a Phrosiectau, am ei weledigaeth, ei waith cynhyrchu a ffilmio. Pob bendith i chi ar y gwranddo.

Y mae pecyn y project hwn yn cynnwys:


1. Pregeth ar ffilm a rhai llais yn unig.
2. Copi Word neu PDF o rhai pregethau y gellir ei hargraffu.
3. Bydd tri emyn wedi eu dewis.
4. Bydd y darlleniadau o'r Beibl wedi eu dewis.
5. Gweddi wedi ei hysgrifennu.
6. Tri chwestiwn y gellir eu gofyn i'r gynulleidfa eu hateb a'u trafod.

'Ap Rahel o Fôn' a Donald Trump – rhifyn diweddaraf Y Traethodydd

Y bregethwraig Rachel Paynter, Rahel o Fôn, a'i mab, y gwleidydd Americanaidd Joseph Davies, sy'n cael y lle blaenaf yn y rhifyn diweddaraf o'r *Traethodydd*, sef rhifyn Ebrill 2024. Mewn ysgrif hynod ddifyr a dadlennol, mae Richard Cleaves yn olrhain hanes un o ferched mwyaf blaengar Oes Victoria. Mae'n cyfeirio at ei dechreuadau ar ynys Môn, ei gyrfa fel pregethwraig ym Morgannwg a'i hanes yn ymfudo i'r Unol Daleithiau, lle bu'n ymgyrchydd o blaid hawliau i ferched, y mudiad dirwest ac achosion dyngarol eraill. Yr hyn oedd Cranogwen yng Nghymru, dyna oedd Rahel ymhlith y Cymry Americanaidd.

Yn America priododd ag Edward Davies, brodor o Dregaron oedd yn byw yn Wisconsin. Daeth eu mab, Joseph, yn ŵr o bwys yn y cylchoedd cyhoeddus, yn gyfaill i Woodrow Wilson, yn llysgennad America yn Rwsia, ac fel 'Ap Rahel o Fôn', yn un a gadwodd ei Gymraeg a'i Gymreictod yn loyw ar hyd ei oes. Ac ym mlwyddyn etholiad arlywyddol tyngedfennol yn y wlad honno, ceir cyswllt annhebygol – braidd y dywedwn, anhygoel – â Donald Trump. Ond os dymunwch wybod yr hanes, bydd raid i chi brynu eich copi eich hun! Gwnaeth Richard Cleaves gymwynas ryfedd wrth ddatgelu'r hanes yn sgil ymchwil fanwl yn y ffynonellau teuluol a chyhoeddus yng Nghymru a'r tu hwnt i'r Iwerydd.

Yn ail hanner ei hysgrif ddadlennol hithau, mae Sioned Spencer yn olrhain



blynyddoedd cychwynol Y *Traethodydd*. Mae'n rhoi sylw i weledigaeth Lewis Edwards ynghylch creu cylchgrawn safonol a fyddai'n cyfryngu i'r Cymry y gorau o diwylliant cyfoes Ewrop, a'r un pryd yn puro chwaeth ddeallusol y darllenwyr. Mae'r ffaith fod Y *Traethodydd* wedi cynnal y weledigaeth wreiddiol ers canrif a thri chwarter yn destun balchder o hyd.

Yn y gyntaf o gyfres fer ar wyddonwyr o Gymru mae Rowland Wynne yn adrodd hanes E. G. Bowen, y ffisegydd o Abertawe. Roedd yn un o aelodau cynnar y Blaid Genedlaethol – Plaid Cymru yn ddiweddarach – a gwnaeth gyfraniad

byd-eang mewn amryw o feysydd gwahanol: darlledu ar y tonfeddi radio, radar ac yna seryddiaeth. Er i'w yrfa fynd ag ef ymhell oddi cartref, i Loegr, America ac erbyn y diwedd i Awstralia, parhaodd yn Gymro gwlatgar, a da yw cael gwybod mwy amdano.

Ymhlith adolygwyr y rhifyn hwn y mae Mererid Hopwood, sy'n trafod cyfrol un o feirdd mwyaf ffyddlon Y *Traethodydd*, sef Mary Burdett-Jones. Tafoli'r gyfrol Yr *Apêl: Hanes Rhyfeddol Deiseb Heddwch Menywod Cymru, 1923-4* a wna Meg Tomos. Un arall o ffyddloniaid y cylchgrawn yw'r amryddawn D. Ben Rees ac mae'r golygydd yn rhoi sylw i'w gasgliad diweddar o bregethau ynghyd â sylwadau cofiannol *Rhedeg yr Yrfa fel Gweinidog yr Efengyl, a Chyfrwl o Bregethau*. Bardd y rhifyn yw Aled Jones Williams, a da yw medru rhoi lle i'w gynnyrch unigryw yntau.

Yn unol â'n harfer, anogwn bawb nid yn unig i ddarllen y rhifyn hwn ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

Cwrs Dathlu a Hyrwyddo Ffydd

Dyddiadau: 19–20 Ebrill, 2024: tua 4 o'r gloch brynhawn Gwener hyd tua 3 o'r gloch brynhawn Sadwrn

Lleoliad: Coleg Trefeca, Trefeca, Aberhonddu, Powys, LD3 0PP (<https://www.trefeca.org/cy>)

Trefnir y cwrs gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'i fwriad yw cynorthwyo aelodau a blaenoriaid ein capeli i fedru hyrwyddo gweithgareddau eu capeli yn fwy effeithiol ac yn arbennig ar y we. Y siaradwyr fydd y Parchedig W. Bryn Williams a Mrs Nia Wyn Williams ar y nos Wener, y Parchedig John Roberts ar y bore Sadwrn a'r Parchedig Gwyn Rhydderch brynhawn Sadwrn.

Addoliad, astudiaeth feiblaidd a gweddi fydd yr elfennau a gyflwynir ar y nos Wener. Trafodaeth ar sut i ysgrifennu, llunio a chyhoeddi erthyglau bachog sy'n dal sylw fydd yr arlwy ar y bore Sadwrn. Daw'r cwrs i ben brynhawn Sadwrn yn trafod sut y gellir hyrwyddo gan ddefnyddio'r gweledol trwy gyfrwng lluniau a ffilmiau.

Mae'r Parchedig W. Bryn Williams yn Weinidog Gofalaeth Pwllheli a Chyfarwyddwr Academaidd EBC ac mae Mrs Nia Wyn Williams yn Arweinydd Tîm Plant ac Ieuenctid a Swyddog Addysg EBC. Cyfarwyddwr cwmni Tonnau sy'n cynhyrchu rhaglenni ar gyfer Radio Cymru ers 2019 yw'r Parchedig John Roberts ac ef hefyd yw cyflwynydd y rhaglen *Bwrw Golwg* ers 1991. Mae'r Parchedig Gwyn Rhydderch yn Weinidog a Phennaeth Prosiectau a Chyfathrebu EBC.

Cymraeg fydd iaith y cyflwyniadau a darperir cyfieithu ar y pryd ar gyfer dysgwyr a'r di-Gymraeg. Bydd yna dâl cofrestru ar gyfer y cwrs.

Am fwy o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech archebu lle, cysylltwch â Rhys Bebb Jones, Cydlynnydd Hyfforddiant EBC. Os ydych chi'n dymuno, gallwch ddod am y diwrnod ar y dydd Sadwrn yn unig. Disgwylir i'r cwrs hwn fod yn boblogaidd, felly sicrhewch eich lle cyn gynted â phosibl trwy gwblhau'r Ffurflen Gofrestru (sydd ar gael oddi wrth Rhys) a'i hanfon drwy e-bost at Rhys: rhys.jones@ebcpcw.cymru

Rhys Bebb Jones
Cydlynnydd Hyfforddiant EBC



Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

A oes gennych brofiad neu ddi-ddordeb yn y maes eiddo?

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn awyddus i benodi unigolyn brwdfrydig i'r swydd ganlynol i weithio fel rhan o dîm ymroddedig sy'n darparu arweiniad, cefnogaeth a chymorth i'n heglwysi:

Cydllynydd Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru

Lleoliad: Caerfyrddin

Cynigir patrwm gwaith hyblyg gyda chyfleon i weithio o adref, ond disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus dreulio cyfnod o dan hyfforddiant a chyfnodau penodol yn gweithio o'r swyddfa yng Nghaerfyrddin. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio ar draws Cymru.

Pwrpas y Swydd: Bod yn gyfrifol am weinyddu, cynorthwyo a chyfarwyddo eglwysi, cymanfaoedd ac unigolion mewn perthynas â materion eiddo a delio'n uniongyrchol ag eiddo sydd yn ngofal Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at amcanion eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru ynghyd â phrofiad neu ddi-ddordeb yn y maes eiddo ac yn medru cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyflog: £27,485.45–£28,438.70

Oriau: 35 awr yr wythnos

Ystyrir ceisiadau ar gyfer rhannu swydd

Dyddiad cau: 29 Ebrill 2024

Dyddiad cyfweld: 10 Mai 2024

I gael rhagor o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch â Dr Christian Tucker-Williams – 0345 222 1514 neu christian@ubc.cymru



Eglwys Bresbyteraidd Cymru

EGLWYS Y CRWYS, CAERDYDD

Arweinydd i'r Crwys a Swyddog Ymgysylltu, Bugeiliol a Thyfiant

Pwrpas a bwriad y swydd arloesol hon yw cynnig arweiniad, perthnasedd a gweledigaeth newydd i fywyd eglwys ddinesig, gan esgor ar gyfleoedd newydd o gael perthynas â'r eglwys honno a'r gymdeithas ehangach. Y nod fydd meithrin y berthynas honno drwy weithio ar lefel gydenwadol a chyd sefydliadau dyngarol ac amgylcheddol eu hanian. Mae gofyn datblygu dulliau o dorri tir newydd er mwyn sicrhau tyfiant yr eglwys o blith yr aelodaeth bresennol ac o blith y rhai nad oes ganddynt brofiad o eglwysi traddodiadol.

Oriau: 35 awr yr wythnos

Cytundeb: 2 flynedd, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

Cyflog: 22–26 (£25,962–£28,297 pro rata) ar raddfa cyflog EBC *neu'n uwch*, yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad, gan gynnwys deilydd ordeinedig i'r swydd.

Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.

Lleoliad: Eglwys y Crwys, Caerdydd, a byddwch yn gweithio o adref. Fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirdd boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:

e-bost – neu swyddfa.office@ebcpcw.cymru

ffôn – 02920 627465

Dyddiad Cau: 4pm, 12 Ebrill 2024



CYFARFOD Y GWANWYN 2024

Gwyn Davies: Emynau Nantlais
Rhiannon Davies: Azariah Shadrach
Eifion Jones: Gyrfa Dr David Evans
Rhidian Griffiths: Cofio Alun Davies

DYDD SADWRN, 27 EBRILL 2024

11.00–3.30

(Coffi a the ar gael o 10.30 ymlaen)
Festri Capel y Morfa, Stryd Portland, Aberystwyth

Ffi (yn cynnwys cinio bwffe ysgafn):
£12; cofrestru yn unig £5

Ateber erbyn **22 Ebrill 2024:**
Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd
Bryn-y-môr, Aberystwyth SY23 2HX
01970 610160 / 07506 482661
rhcgriffiths@btinternet.com

**Croeso cynnes i bawb:
nid oes rhaid bod yn aelod o'r
Gymdeithas i fynychu'r digwyddiad**

Pesach – Swper yr Arglwydd

Mae gwreiddiau Swper yr Arglwydd, neu'r Cymun Sanctaidd, yn ddwfn yn un o wyliau mawr yr Iddew, Gŵyl y Pasg (Pesach).

Mae Pesach, sy'n golygu 'mynd heibio', yn cyfeirio at y degfed pla yn yr Aifft. Bryd hynny, aeth Duw heibio i dai'r caethweision Hebreig oedd â gwaed oen wedi ei daenu ar byst eu drysau, a chaniatawyd i'r caethweision adael yr Aifft.

Ers y digwyddiadau hynny mae Iddewon ar draws y byd wedi dathlu'r Pasg er mwyn cofio eu rhyddhau o gaethiwed. Mae yna drefn arbennig i'w dilyn yn y pryd bwyd, sef y Seder. Mae'n gyfle i'r plant ddysgu am ddigwyddiad pwysig yn hanes y genedl ac yn dangos darnau arbennig o fwyd, rhai i'w bwyta a rhai i edrych arnynt.

Nos Iau Cablyd cynhaliwyd oedfa arbennig yng nghapel Ebeneser (A), Hen Golwyn. Roedd dau fwrdd wedi eu paratoi.

Ar y bwrdd cyntaf, bwrdd y Seder, roedd perlysiâu chwerw i gofio am chwerwder caethwasiaeth a phast melys fel symbol o'r mortar a ddefnyddid gan y caethweision. Arno hefyd yr oedd dŵr halen i gynrychioli'r dagrau a gollwyd yn yr Aifft yn ogystal â pherlysiâu gwyrdd – y dail yn symbol o ryddid. Roedd asgwrn coes oen wedi ei rostio yn symbol o'r oen a aberthwyd yn y Deml, ac wy wedi ei ferwi'n galed ac yna ei rostio yn symbol o fywyd newydd. Drwy gydol yr ŵyl bwyteir Matzah, bara di-lefain, yn lle bara arferol.

Er mwyn cadw'r rheswm dros dathlu'r Pasg yn fyw yn y cof o genhedlaeth i genhedlaeth bydd rhywun o blith aelodau ifanc y teulu yn gofyn pedwar cwestiwn:



- **Pam rydym yn bwyta dim ond bara croyw heno?**
- Mae'r bara croyw'n ein hatgoffa o'r brys pan roddwyd arwydd i'r bobl adael yr Aifft.
- **Pam y perlysiâu chwerw?**
- I gofio'r dyddiau chwerw yn yr Aifft.
- **Pam y dŵr hallt?**
- I gofio'r dagrau hallt a gollwyd yn yr Aifft.
- **Pam yr holl drafferth heno?**
- I dathlu'r ffaith ein bod yn rhydd ac yn gallu bwyta fel pobl rydd.

Gwahoddwyd pawb gan y Parch Helen Wyn Jones i ymuno o gylch yr ail fwrdd. Ychydig iawn oedd arno ac roedd yn llwm iawn o'i gymharu â'r bwrdd cyntaf. Dadorchuddiwyd plât gyda darnau o fara a chwpanau bychain yn cynnwys gwin. Atgoffwyd ni fod Iesu wedi cymryd bara a gwin oddi ar fwrdd gwledd Pesach a'u defnyddio i sôn am fath arall ar ryddid.

I'r Iddew, cofio am ryddhau'r genedl Iddewig o'r Gaethglud a wneir. Ond y mae'r Cymun yn ein hatgoffa fod Iesu'n

cynnig rhyddid i bawb fel y dywed geiriau'r gwahoddiad, 'Hwn yw Bwrdd yr Arglwydd, ac yn agored i bawb sy'n caru Iesu Grist yn ddi-dwyll ac yn ei broffesu yn Arglwydd a Gwaredwr.'

O edrych ar y bwrdd cyntaf, hawdd iawn oedd dychmygu'r olygfa yn yr oruwchystafell. Hawdd iawn, o edrych ar yr ail fwrdd, oedd clywed Iesu'n dweud wrthym ninnau, 'Hwn yw fy nghorff sydd er eich mwyn chwi, gwnewch hyn i gofio amdana i', ac yna, 'Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i. Gwnewch hyn, bob tro yr yfych ef i gofio amdana i'.

Fel y disgyblion gynt, gadawsom fwrdd y wledd ac aethom allan gan ganu emyn:

Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen, cyn gosod haul na lloer na sêr uwchben, fe drefnwyd ffordd yng nghyngor Tri yn Un i achub gwael, golledig, euog ddyn.

*Trefor Lewis
Hen Golwyn*

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
Sul, 14 Ebrill, am 7.30yh

Bydd Rhodri Gomer ar grwydr yn un o ardaloedd prydferthaf Cymru, yn mwynhau harddwch byd natur ac yn ymweld â rhai o drysorau crefyddol a hanesyddol gogledd sir Benfro. Ac fe awn ar daith gerddorol i fwynhau gwledd o emynau o addoldai ledled Cymru.

radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 14 Ebrill, am 7:30yb a 16:30yp

Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni Carys Tudor Williams, Caerdydd

Oedfa Radio Cymru
Sul, 14 Ebrill, am 12yp
Oedfa dan ofal John Emyr, Caerdydd

Beth yw Gweddi? – rhan 2: Beth mae Iesu'n ein dysgu am weddi?

Mae treulio amser gyda Duw mewn gweddi yn y lle cyntaf yn rhoi clod i Dduw, ond mae hefyd yn llesol i ni, yn ysbrydol ac yn feddyliol. Mae gweddïo a datblygu ein harfer o weddïo'n gyson cystal a gwell na'r holl therapi a chyingor a gawn ynglŷn ag iechyd meddwl. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi ein creu i fyw mewn perthynas ddyddiol â Duw, y creadur gyda'r crëwr mewn cyfeillgarwch agos. Mae gweddi yn dyfnhau'r berthynas hon ac yn ein newid.

Yn Exodus, pennod 34, fe gawn hanes am Moses. Pan ddaeth Moses i lawr o ben Mynydd Sinai gyda dwy lechen y dystiolaeth yn ei law, doedd e ddim yn sylweddoli fod ei wyneb wedi bod yn disgleirio wrth i'r Arglwydd siarad ag e. Pan welodd Aaron a phobl Israel Moses yn dod, roedd ei wyneb yn dal i ddisgleirio, ac roedd ganddyn nhw ofn mynd yn agos ato.

Pan ddychwelai Moses wedi iddo fod ym mhresenoldeb yr Arglwydd, roedd ei wyneb yn disgleirio. Gellid gweld ar ei wyneb ei fod wedi bod ym mhresenoldeb Duw. Mae gweddi yn gadael ei hól arnom – ar ein meddwl, ar ein hysbryd, ar ein dealltwriaeth o'n ffydd ac o'r byd rydym yn byw ynddo.

Beth mae Iesu yn ei ddweud am weddi? Dywed nifer o bethau; dyma ddau ohonynt.

1. Enw'r Iesu

Wrth i ni weddïo rydym i wneud hynny bob amser yn enw Iesu Grist. Pam hynny? Oherwydd mai Iesu yw'r ffordd i berthynas â Duw. Dywedodd fel hyn yn Ioan 15: 'Nid chwi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chwi, a'ch penodi i fynd allan a dwyn ffrwyth, ffrwyth sy'n aros. Ac yna, fe rydd y Tad i chwi beth bynnag a ofynnwch ganddo yn fy enw i.' (Ioan 15:16, BCND)

Felly, yr unig ffordd y gallwn weddïo ar Dduw yw yn enw'r Iesu. Ni allwn ddod at Dduw a dweud, 'Arglwydd, rwy'n dod atat ti yn gofyn hyn a'r llall oherwydd dwi'n dipyn o foi a dwi'n meddwl fy mod haeddu i ti wrando arnaf. Dwi wedi gwneud hyn, llall ac arall, a dwi'n credu fod arnat ti un neu ddau o bethau i mi. Felly gwrandda ar fy ngweddi.'

Dywedodd Iesu stori am berson yn gwneud hynny yn Luc 18:

'Aeth dau ddyn i weddïo yn y deml. Pharisead oedd un ohonyn nhw, a'r llall yn ddyn oedd yn casglu trethi i Rufain. Dyma'r Pharisead yn sefyll ar ei draed yn hyderus, a dyma oedd ei weddi: "O Dduw, dw i yn diolch i ti mod i ddim yr un fath â phobl eraill. Dw i ddim yn twyllo na gwneud dim byd drwg arall, a

dw i ddim yn gwneud pethau anfoesol. Dw i ddim yr un fath â'r bradwr yma! Dw i'n ymprydo ddwywaith yr wythnos ac yn rhoi un rhan o ddeg o bopeth sydd gen i i'r deml."

'Ond roedd y casglwr trethi wedi mynd i sefyll mewn rhyw gornel ar ei ben ei hun. Doedd e ddim yn meiddio edrych i fyny hyd yn oed. Yn lle hynny roedd yn curo'i frest mewn cywilydd. Dyma

oedd ei weddi e: "O Dduw, wnei di faddau i mi. Dw i'n bechadur ofnadwy."

"Dw i'n dweud wrthoch chi mai'r casglwr trethi, dim y Pharisead, oedd yr un aeth adre a'i berthynas gyda Duw yn iawn. Bydd Duw yn torri crib pobl falch ac yn anrhydeddu'r rhai gostyngedig." (Luc 18:9-14)

Nid oes gen i unrhyw haeddiant gerbron Duw trwy fy ngallu na fy nuwioledeb fy hun. Rhaid pwyso ar ei ras rhyfeddol. Yr hyn sy'n ein gwahanu ni oddi wrth Dduw yw ein pechod, ond mae Iesu wedi delio gyda hwn trwy ei fywyd perffaith, ei farwolaeth a'i atgyfodiad, fel y gallwn ddod at yr Arglwydd yn hyderus. A dim ond yn enw'r Iesu y mae gennym haeddiant i ddod gerbron Duw y Tad mewn gweddi.

2. Peidio amlhau geiriau

Mae'r Iesu hefyd yn rhoi cyngor i'w ddisgyblion i beidio â gweddïo fel y paganiaid, yn hir ac yn llawn rhwysg.

'A pheidiwch gweddïo fel y rhai sy'n gwneud sioe o'u crefydd. Maen nhw wrth eu boddau pan mae pobl yn edrych arnyn nhw yn codi i weddïo yn y synagogau neu ar strydoedd prysur ... Pan fyddi di'n gweddïo, dos i ystafell o'r golwg, cau y drws, a gweddïo ar dy Dad sydd yno gyda ti er dy fod ddim yn ei weld. Wedyn bydd dy Dad, sy'n gweld pob cyfrinach, yn rhoi dy wobr i ti. A phan fyddwch chi'n gweddïo, peidiwch mwydro ymlaen yn ddiidwedd fel mae'r paganiaid yn gwneud. Maen nhw'n meddwl y bydd Duw yn gwrandda am eu bod yn gweddïo mor hir. Peidiwch chi â bod fel yna. Mae'ch Tad chi'n gwybod yn union beth sydd ei angen arnoch chi cyn i chi ddweud gair.' (Luc 11:2-4)

'Mwydro ymlaen.' Ha, ha! Nid gweddïau rhwysgfawr cyhoeddus mae Duw yn eu ceisio ond yn hytrach ein calon mewn gweddi ddirgel. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gweddïo yn gyson yn y dirgel. Gwnewch amser i hyn bob dydd. Ben bore, amser cinio neu gyda'r nos, ond gwnewch bwynt o weddïo pan mai dim ond chi a'r Hollalluog sydd yn gwybod.

(Gyda diolch i'r *Tyst*)



Llun: Ben White, Unsplash.com

Poems from the Soul (Calon, 2024), M. Wynn Thomas a Ruth Jên Evans

Mae hon yn gyfrol hardd, foethus a hylaw. Cyfrol hyderus o ran ei gwneuthuriad – clawr caled, siaced lwch a'r maint perffaith i'w dal mewn un llaw a'i llithro'n braf i boced eich côt, eich han'bag neu'ch manbag. Cyfrol sy'n anadlu'n ddwfn ac yn araf, yn caniatáu digon o ofod gwyn i'r geiriau gael meddwl ac yn rhoi'r gofod haeddiannol i waith gwyb Ruth Jên; dalen gyfan i lun a bodlun, ac i weledigaeth Olwen Fowler, y dylunydd.


Wrth eistedd mewn car moethus, rydych yn gwybod cyn symud modfedd y bydd daith yn un braf. Felly hefyd y gyfrol hon, a dim ond £12.99 fydd raid i chi dalu am y reid yma.

Hyn oll cyn sôn gair am y gyrrwr na'r cynnwys.

Mae hon yn chwaer gyfrol i *The History of Wales in Twelve Poems* (2021), *A Map of Love* (2023), y ddwy yn gynnyrch y bartneriaeth rhwng Ruth, Olwen, yr awdur a'r cyhoeddwr Calon (gwasgnod i Wasg Prifysgol Cymru). Dyma bartneriaeth sy'n prysur sefydlu lle iddi hi ei hun yn y farchnad o ran cyflwyno testunau dysgedig Cymreig mewn cywair hygyrch a fformat hardd. Mae'n daith gerdded drwy rai o emynau mwyaf adnabyddus Cymru, a'r tywysydd yn aros wrth bob carreg filltir i ryfeddu at yr olygfa a thynnu sylw at ambell beth nodedig yn y tirlun.

Mae M. Wynn Thomas yn dewis testunau cyfarwydd yr oes aur: Gwilym Hiraethog, Ann Griffiths (2), Pantycelyn (4), Mary Owen, Thomas Lewis, Gwyrosydd, T. Rowland Hughes a Tomi Evans. Testunau cyfarwydd, ond oherwydd natur y gyfrol mae'r awdur yn mynnu edrych arnyn nhw o ongl wahanol. Wedi'r cwbl, mae tywysydd da yn gallu taflu goleuni gwahanol ar y llwybrau mwyaf cyfarwydd.

Er efallai fod y testunau'n gyfarwydd i ddarllenwyr yr adolygiad hwn, allwn ni ddim cymryd y byddan nhw'n gyfarwydd i fwyaf darllenwyr y gyfrol. Mae'r awdur yn cydnabod y ddeuliaeth,



yn y lle cyntaf, rhwng Cymru gapelgar ei fagwraeth a'r Gymru ôl-Gristnogol yr ydyn ni'n byw ynddi bellach. Ac, wrth gwrs, cyfrol Saesneg yw hon yn cyflwyno emynau a gyfansoddwyd yn Gymraeg. Felly, mae angen cydestun a phersbectif gwahanol a difyr er mwyn bachu cynulleidfia at destun dieithr. At hynny, mae'r ffaith fod yr awdur yn cyfeirio'n gyson at faes arall y mae'n awdurdod arno, sef llenyddiaeth yr Unol Daleithiau, yn cynnig golygfa arall, wahanol eto, i ddarllenwyr sy'n gyfarwydd â'r daith.

Mae yma gyfieithiad o bob emyn. o waith M. Wynn Thomas ei hun. Ac mae'r rheiny ynddynt eu hunain yn cynnig golwg wahanol ar y gwreiddiol. Mae'n ddifyr darllen sut mae o'n gweld pwysigrwydd yr ail berson unigol 'ti' i ddiwinyddiaeth y Gymraeg; mae'n cynnig agosatrwydd i ni sy'n anodd ei gyfieithu i'r Saesneg.

Mae'n gyfrol sy'n perthyn i'w hoes. Pytiau ydyn nhw yng nghyd-destun ein traddodiad geiriog ni, rhyw gwta 700 gair. Ond eto mae yma llyn sy'n estyn drwy'r gyfrol. Mae'n gyfrol o hanes sy'n mynnu ein tynnu ni'n ôl i gyd-destun cymdeithasol eu cyfansoddi a'r ffaith

ganolog mai gwerinwyr cyffredin, â phrin un droed allan o anllythrennedd, oedd yr awduron hyn. Roedd y diwygiadau hyn yr oedd yr awduron yn eu cynrychioli, yn eu tro, yn cynrychioli symudiad mawr i ddemocrateiddio crefydd ac yn ei sgil ddysg ein gwlad.

Mae diwinyddiaeth drom yn gefndir i fwyaf yr emynau. Ond eto, fel mae M. Wynn yn dangos, mae'r emynau yn fodd o egluro'r ddiwinyddiaeth honno i gyfoeswyr oedd, i raddau helaeth, yn anllythrennog. Mae tri emyn ar ddiwedd y casgliad yn rhai mwy uniongyrchol efallai, ond eto'n talu am eu lle: 'Tydi a roddaist liw i'r wawr' (T. Rowland Hughes), 'Calon Lân' (Gwyrosydd) ac 'O Dduw a roddaist gynt' (Tomi Evans). Mae pob un ohonynt yn ei ffordd ei hun yn profi parhad y traddodiad.

Efallai mai 'Calon Lân' brofodd bwynt i'r adolygydd hwn. Emyn 'Gwyrosydd', enw crand i feddwyn hoffus oedd yn dipyn o fardd gwlad a chlust dda ganddo at ffasiynau ei oes. (Wyddwn i ddim am hyn; mae'n rhaid mod i wedi byw mewn ogof yn Sunderland am hanner canrif.) All neb wadu ei lle i hon mewn tafarn ac ar deras rygbi. Ac eto, dyna brofi calon y gwir. Er bod diwinyddiaeth ddofn yn perthyn i garfan o awduron ac arweinwyr, oedd am gyfnod yn llwyrwrthodol, mae diwinyddiaeth y mwyafrif yn perthyn i'r dafarn a'r ganolfan siopa a'r maes chwarae yn ogystal, ac yn amlach o lawer na'r capel a'r eglwys.

Ac yn hynny o beth mae M. Wynn yn cloi pob ysgrif gyda phwt am y dôn sy'n cydfynd amlaf â'r emyn, y cerbyd sydd, eto'n amlach na pheidio, yn cludo'r geiriau hyn i glust y gwrandawr. Mae hyd yn oed Cod-QR i chi lwytho casgliad o'r emynau i'ch ffôn neu'ch cyfrifiadur i wrando arnyn nhw wrth ddarllen.

Cyfrol un eisteddiad yw hon ond cyfrol i'w thrysori hefyd. Moethusrwydd cynnwys a ffurf. Pecyn perffaith. Anrheg berffaith. Mynnwch gopi.

Rocet Arwel Jones

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)